



Dŵr Cymru
Welsh Water

Adeiladu dros (neu'n agos at) garthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol

Beth y dylech ei wneud, a sut y gallwn helpu





Cyn i chi dechrau

Os ydych yn ystyried gwneud gwelliannau i'ch cartref drwy godi estyniad neu ychwanegu heuldy, atodiad neu garej atodedig, mae angen i chi roi gwybod i ni.

Wrth gynllunio eich estyniad, dylech fod wedi cael Caniatâd Cynllunio neu gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu gan eich Awdurdod Lleol. Neu efallai eich bod yn gwneud gwaith sy'n destun 'hawliau datblygu a ganiateir perchenogion tai', neu waith nad oes angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar ei gyfer (weithiau bydd heuldoi, pyrth ceir a chynteddau yn perthyn i'r categori hwn).


Fodd bynnag, nid yw'r caniatadau hyn yn rhoi cydsyniad i chi adeiladu dros neu'n agos at ddraeniau ochrol a charthffosydd Dŵr Cymru.

Rydym yn argymhell eich bod yn canfod lleoliad y draeniau ochrol a'r carthffosydd ymhell cyn i chi ddechrau unrhyw waith adeiladu, ar gam cynllunio eich prosiect. Bydd hyn yn helpu i osgoi oedi diangen, difrod i bibellau neu gostau ychwanegol maes o law. Efallai y gall eich pensaer neu adeiladwr eich helpu i ganfod a oes carthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol o fewn ffin eich eiddo.

Os bydd angen help arnoch i ddod o hyd i bibellau ar eich tir, gallwn gynnal arolwg i ganfod lleoliad carthffosydd neu gallwch gysylltu â chontractwr achrededig Cynlluniau Diogelwch mewn Caffael (SSIP). Gallai adeiladu dros neu'n agos at bibell achosi difrod i'r bibell neu'ch cartref yn yr hirdymor, felly mae'n bwysig ein bod yn cydweithio i ganfod pa bibellwaith sydd o dan y ddaear. Os oes pibellwaith ar eich tir, gallai effeithio ar leoliad, maint a chynllun eich estyniad.

Carthffosydd dyfnach, mwy o faint a datblygiadau mwy o faint

Mae'r llyfryn hwn yn ymdrin ag addasiadau i eiddo preswyl sy'n bodoli eisoes – fel arfer, lle mae perchennog yn bwriadu adeiladu estyniad naill ai dros neu'n agos iawn at garthffosydd cyhoeddus bach a draeniau ochrol, gyda diamedr o 225mm ar y mwyaf. Os ydych yn adeiladu tŷ newydd neu estyniad i eiddo diwydiannol neu fasnachol, ni fyddwn yn rhoi cydsyniad i adeiladu dros neu'n agos at garthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol. Os yw eich gwaith adeiladu y tu allan i'r cwrmpas hwn, cysylltwch â ni i drafod eich opsiynau drwy anfon e-bost i developer.services@dwrcymru.com neu drwy ffonio **0800 917 2652**.



Allwedd:



Twll Archwilio Cyhoeddus

— **Draen Breifat** - y system ddraenio o fewn ffin eich eiddo sydd ond yn gwasanaethu eich eiddo chi

— **Carthffos Gyhoeddus** - y bibell sy'n llifo i mewn i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus o fwy nag un eiddo



Pwy sy'n gyfrifol am beth?

Fel perchennog eiddo, chi sy'n gyfrifol am ddraeniau sydd ond yn gwasanaethu eich eiddo chi ac sydd wedi'u lleoli o fewn ffin eich eiddo. Mae hyn yn cynnwys pibellau tanddaearol, cafnau a pheipiau dŵr sydd ynghlwm wrth eich eiddo.

Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am garthffosydd cyhoeddus sydd ond yn gwasanaethu eich eiddo chi, sydd y tu allan i'ch ffin ac sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith presennol o garthffosydd cyhoeddus, yn ogystal â charthffosydd sy'n gwasanaethu sawl eiddo sydd o fewn eich ffin.

Mae siawns dda y bydd rhai pibellau o fewn ffin eich eiddo sy'n eiddo i Dŵr Cymru. Gall fod mwy nag un bibell garthffos o fewn ffin eich eiddo, h.y. carthffos fudr a charthffos dŵr wyneb.

Os ydych yn bwriadu adeiladu dros neu'n agos at garthffosydd a draeniau sy'n eiddo i Dŵr Cymru, mae angen i chi gael caniatâd gennym yn gyntaf. Os ydych wedi cynnal ymchwiliad sydd wedi dangos bod yr holl bibellau rydych yn bwriadu adeiladu drostynt/yn agos atynt yn breifat, nid oes angen i chi gael caniatâd gennym.

Mae'r diagram isod yn dangos rhai enghreifftiau o bwy sy'n berchen ar beth:



- Draen Breifat** - y system ddraenio o fewn ffin eich eiddo sydd ond yn gwasanaethu eich eiddo chi
- Carthffos Gyhoeddus** - pibell dŵr gwastraff sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo ac sydd wedi'i chysylltu â'r rhwydwaith presennol o garthffosydd cyhoeddus



Cyn i chi ddechrau

Os nad ydych yn siŵr a oes carthffos gyhoeddus yn y man lle rydych eisiau adeiladu:

- Efallai y gall eich pensaer neu adeiladwr eich helpu i ganfod a oes un yno
- Gall fod manylion trefniadau draenio wedi'u cynnwys yn y ddogfennaeth gyfreithiol sy'n ymwneud â'ch eiddo
- Os hoffech i ni eich helpu i ddod o hyd i'r garthffos, cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i planandprotect@dwrcymru.com neu drwy ffonio **0800 917 2652**. Codir tâl am y gwasanaeth hwn, a gellir dod o hyd i'r manylion yn y Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar ein gwefan.

Er mwyn dod o hyd i garthffos, gallwch naill ai drefnu arolwg (gallwn wneud hyn am dâl neu gallwch ddewis eich contractwr achrededig SSIP eich hun) neu gallwch gloddio i lawr nes bod y bibell yn dod i'r golwg. Dylid storio unrhyw dystiolaeth y dewch o hyd iddi gyda gweithredoedd eich eiddo, ynghyd â chopi o'n cydsyniad Adeiladu Dros Garthffosydd. Os byddwch yn gweld bod difrod i'r garthffos neu'r ddraen ochrol, cysylltwch â ni cyn i chi ddechrau unrhyw waith. Rydym hefyd yn argymhell eich bod yn cadw tystiolaeth o gyflwr eich carthffosydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, er mwyn i chi allu dangos nad yw'r gwaith wedi effeithio ar y garthffos. Os bydd problem gyda'n carthffos neu ddraen ochrol yn y dyfodol oherwydd eich gwaith adeiladu chi, gallwn ystyried adennill costau oddi wrthyich.

Sut mae arolwg i ganfod lleoliad carthffosydd yn gweithio?

Bydd criw yn ymweld â chi ac yn rhoi gwybod i chi am leoliad y garthffos tra maent ar y safle. Bydd y criw hefyd

yn gadael cerdyn galw a fydd yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gefnogi eich cais, fel maint, dyfnder a chyflwr y garthffos a'r deunydd y mae wedi'i gwneud ohono. Mae'n bwysig iawn eich bod chi neu eich adeiladwr yn bresennol pan gaiff yr arolwg ei gynnal, er mwyn i chi allu deall lleoliad y brif bibell. Cadwch eich cerdyn galw yn ddiogel gan na fyddwch yn derbyn rhagor o wybodaeth ar ôl yr ymweliad hwn.

Beth fydd y gost?

Mae yna wahanol fathau o geisiadau a gaiff eu hegluro yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn, a nodir y ffioedd gwahanol sydd ynghlwm wrthynt ar ein gwefan.

A allaf ddechrau ar y gwaith cyn cael cydsyniad?

Na allwch. Os na fydd eich cynnig yn bodloni ein meini prawf, efallai y bydd angen i ni gytuno ar ddiwygiadau i'ch cynllun. Os ydych wedi dechrau ar y gwaith yn barod, gallai hyn fod yn gostus ac yn anodd ei wneud, a bydd yn achosi oedi. Ar adegau prin iawn, efallai na fyddwn yn gallu caniatáu i chi adeiladu dros ein carthffos, er mwyn diogelu ein pibellau ni a'ch eiddo chi. Cofiwch, mae angen ein cydsyniad ar gyfer adeiladu'n uniongyrchol dros ein carthffosydd cyhoeddus a'n draeniau ochrol ac ar gyfer adeiladau o fewn tri metr i'r garthffos. Os na fyddwch yn cael cydsyniad ac yn parhau â'ch gwaith adeiladu, efallai na fyddwch yn gallu cael Tystysgrif Cwblhau Rheoliadau Adeiladu gan yr Awdurdod Lleol neu arolygydd cymeradwy i ddangos bod eich gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, a gallai hyn effeithio arnoch os byddwch yn penderfynu gwerthu eich cartref yn y dyfodol.

Pa mor fuan y gallaf ddechrau ar y gwaith?

Fel arfer, gallwn roi cydsyniad i chi o fewn 14 diwrnod. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth arnom cyn i ni allu penderfynu a ellir bwrw ati gyda'r prosiect, neu a fydd angen ei newid.

Pibell sydd yn y golwg



Pibell sydd wedi torri





Oes angen cydsyniad arnaf?

Mewn rhai sefyllfaoedd, ni fydd angen ein cydsyniad arnoch. Os byddwch yn bodloni'r holl feini prawf isod, mae'n debygol na fydd angen ein cydsyniad arnoch:


- 1 Mae'r garthffos gyhoeddus yn 150mm neu lai mewn diamedr
- 2 Mae'r garthffos gyhoeddus yn llai na 2m o ddyfnder
- 3 Bydd eich cynnig 1.2m neu fwy i ffwrdd oddi wrth y garthffos gyhoeddus
- 4 Rydych yn defnyddio sylfeini sribed/ffos a gaiff eu gosod 150mm islaw lefel gwaelod mewnol y garthffos gyhoeddus
- 5 Nid ydych yn cynnig newid unrhyw ran o'r twll archwilio cyhoeddus/carthffos gyhoeddus

Fodd bynnag, byddem yn argymhell eich bod yn cysylltu â'n tîm o hyd er mwyn iddynt godarnhau eich bod wedi'ch eithrio ac felly nad oes angen cytundeb adeiladu drosodd arnoch.



Pa fath o gydsyniad sydd ei angen arnaf?

Unwaith y byddwch wedi cadarnhau bod angen ein cydsyniad arnoch, dyma sut i nodi pa fath o gydsyniad y bydd ei angen arnoch i adeiladu dros garthffos gyhoeddus neu ddraen, neu o fewn tri metr iddi:





Cytundebau adeiladu drosodd hunanardystiedig

Er mwyn bod yn gymwys i gael cytundeb adeiladu drosodd hunanardystiedig, bydd angen i'ch cynnig fodloni'r holl feini prawf canlynol:

- Mae eich datblygiad yn cynnwys estyniad preswyl unllawr neu ddeulawr, heuldy, atodiad neu garej sydd ynghlwm wrth yr eiddo presennol.
- Rhaid bod y garthffos wedi'i wneud o glai neu blastig.
- Ni ddylai diamedr mewnol y garthffos fod yn fwy na 150mm.
- Rhaid i'r garthffos fod yn bibell llif disgyrchiant – mae'n llifo'n rhydd ac nid yw dan bwysedd.
- Ni ddylai'r garthffos fod yn ddyfnach na dau fetr islaw lefel y ddaear.
- Bydd gan eich adeilad sylfeini sribed/llewi ffos traddodiadol.
- Nid ydych yn ymwybodol o unrhyw hawddfreintiau na chyfamodau cyfyngu sy'n ymwneud â'r pibellwaith rydych yn bwriadu adeiladu drosodd/yn agos ato.
- Nid ydych yn ymwybodol o unrhyw flociadau hanesyddol, llifogydd, arogleuon na materion gweithredol eraill nad ydynt wedi'u datrys mewn perthynas â'r garthffos.
- Nid yw eich cynnig yn cynnwys newid unrhyw asedau cyhoeddus (h.y. adleoli/cael gwared ar dwll archwilio neu osod pibell newydd).
- Bydd pwyntiau mynediad fel tyllau archwilio, siambrau archwilio a phwyntiau mynediad ar gyfer rhodïau (rodding eyes) y tu allan i'ch adeilad newydd ac o leiaf 500mm i ffwrdd.
- Rhaid i'r sylfeini sydd o fewn un metr ar draws o'r garthffos gael eu gosod o leiaf 150mm yn ddyfnach nag ochr isaf y bibell.
- Rhaid sicrhau bod bwloch llorweddol o 500mm rhwng y garthffos a'r sylfeini cyfochrog newydd.
- Ni ddylai'r garthffos newid o ran diamedr/cyfeiriad/deunydd neu graddiant o dan eich adeilad arfaethedig.
- Rhaid i'r garthffos fod mewn cyflwr da – dylid cadarnhau hyn cyn dechrau adeiladu naill ai drwy amlygu'r bibell y byddwch yn adeiladu drosti yn ei chyfanrwydd neu drwy gael arolwg teledu cylch cyfyng.
- Ni fydd eich adeilad yn ymestyn dros y garthffos o un ochr eich gardd i'r llall lle mae'r cymdogion ar y naill ochr a'r llall wedi gwneud yr un peth eisoes.
- Rhaid i garthffosydd sy'n pasio drwy walïau sy'n dal pwysau gael eu diogelu yn unol â H1 2.24B (Rheoliadau Adeiladu 2000) a gofynion Dŵr Cymru.
- Rhaid bod o leiaf 300mm o orchudd rhwng rhan uchaf y garthffos ac ochr isaf llawr newydd eich adeilad.

Os nad ydych yn siŵr am unrhyw rai o'r pwyntiau uchod rydym yn awgrymu eich bod yn gofyn i'ch pensaer neu adeiladwr am gymorth.

Os yw pethau'n aneglur o hyd, neu os na all eich cynnig gydymffurfio â'r pwyntiau hyn, dylech gyflwyno cais llawn.



Cwestiynau cyffredin

Beth os bydd angen i mi newid carthffos neu ddraen ochrol er mwyn cael cytundeb adeiladu dros garthffos?

Os bydd angen i chi wneud unrhyw addasiadau i garthffos gyhoeddus neu ddraen ochrol, fel symud siambr archwilio bresennol neu osod pibell newydd yn lle un ddiffygiol, bydd angen i ni gytuno ar gwmpas y gwaith ymlaen llaw. Dylech gynnwys manylion yr addasiadau rydych yn bwriadu eu gwneud pan fyddwch yn gwneud eich cais ar y ffurflen gais.

Os na allaf fodloni'r meini prawf, beth ddylwn i ei wneud?

Mewn rhai achosion, gall fod angen i chi wneud gwaith ychwanegol i'ch eiddo neu newid eich cynllun cyn i chi fodloni'r meini prawf cydsynio. Er enghraifft, efallai y bydd angen i chi symud siambr archwilio neu osod pibellwaith newydd.

Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen i chi ddargyfeirio'r garthffos er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith adeiladu.

Cysylltwch â ni i drafod y trefniadau amgen hyn.

Beth os byddaf yn dod o hyd i bibellwaith sydd wedi'i ddifrodi neu bibellwaith diffygiol yn ystod y gwaith adeiladu?

Mae'n debygol y bydd angen gosod pibellwaith newydd yn ei le. Cysylltwch â ni i drafod hyn ymhellach.

Sut y gallaf i neu fy nghontractwr weithio ar y rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus yn ddiogel?

Bydd angen i chi a'ch contractwr ystyried y gofynion canlynol hefyd cyn dechrau gwneud unrhyw waith:

- Wrth wneud unrhyw waith ar y rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus, mae angen ystyried nifer o beryglon gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: lleoedd cyfyng, gweithio ar ddyfnder a phresenoldeb nwyon gwenwynig/ffrwydrol o bosibl. Mae angen i ni fod yn fodlon bod y contractwr a benodir gennych i ymgymryd â gwaith ar ein carthffosydd neu ddraeniau yn gymwys ac yn meddu ar y cymwysterau addas o ran Deddfwriaeth Lechyd a Diogelwch gyffredol.

- Rhaid i gontractwyr sydd am gael mynediad i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus ddangos yn y lle cyntaf bod ganddynt systemau a phrosesau iechyd a diogelwch priodol ar waith i sicrhau bod eu staff yn gallu cael mynediad diogel i'n rhwydweithiau. Byddwn yn cynnal gwiriadau i sicrhau bod y contractwr yn aelod o un o'r sefydliadau sy'n rhan o broses achredu Cynlluniau Diogelwch mewn Caffael, a ardystir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi dwyn nifer o gyrff achredu Iechyd a Diogelwch presennol ynghyd o dan ambarél Cynlluniau Diogelwch mewn Caffael (SSIP). Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cynllun hwn a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono drwy fynd i www.ssip.org.uk

- Byddwn yn cadarnhau statws cyn cymhwyso'r contractwr a ddewiswyd gennych gyda'r sefydliad cymeradwyo yn ystod y broses gwneud cais. Yn ogystal â gofynion SSIP, bydd yn rhaid i'ch contractwr gael cymeradwyaeth Mynediad at Asedau hefyd cyn iddo wneud cysylltiad ffisegol â'r garthffos.

Beth yw'r broses Mynediad at Asedau?

Rhoddir manylion lleoliadau lle gwyddys fod risgiau a pheryglon penodol sy'n ymwneud â'r rhwydwaith carthffosydd i'r contractwr sy'n bwriadu cael mynediad i'n rhwydwaith drwy broses AFO2.

Gellir dod o hyd i gopi o Ffurflen Mynediad at Asedau AFO2 ar ein gwefan a rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno o leiaf 10 diwrnod gwaith ymlaen llaw er mwyn cael cymeradwyaeth Mynediad at Asedau.

Bydd angen i gontractwyr roi eu rhif cyfeirio Cydsyniad Mynediad at Asedau i ni pan fyddant yn rhoi 48 awr o rybudd i ni cyn dechrau'r gwaith. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar ffurflen AFO2. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o fater gweithredol sy'n ymwneud â'r rhwydwaith carthffosydd yn ystod y cyfnod y bydd y gwaith yn mynd rhagddo, gofynnir i'r contractwr roi'r gorau i weithio a gadael y rhwydwaith carthffosydd.

Atodiad 1: Ein meini prawf cydsynio

Bydd angen i chi sefydlu a chadarnhau:	Byddwn ni'n dweud ie am y rhesymau canlynol...	Byddwn ni'n dweud na am y rhesymau canlynol...	Cyngor pellach:
<p>1. Y math o waith adeiladu</p>	<p>Mae eich datblygiad yn cynnwys estyniad preswyl unllawr neu ddeulawr, heuldy, atodiad neu garej sydd ynghlwm wrth yr eiddo presennol</p>	<p>Mae eich datblygiad yn cynnwys adeiladu eiddo preswyl newydd, estyniad i eiddo diwydiannol a masnachol neu unrhyw adeiladau neu strwythur ategol ar wahân</p>	<p>Ni allwn roi cydsyniad i chi adeiladu dros/yn agos at mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ✘ Eiddo preswyl newydd ✘ Estyniadau i eiddo diwydiannol a masnachol ✘ Adeiladau neu strwythur ategol ar wahân ✘ Os yw'r bibell y bwriedir adeiladu drosti/yn agos ati yn ddiffygiol ac nid yw wedi'i hatgyweirio ✘ Mae'r bibell yn fwy na 225mm mewn diamedr ✘ Mae diamedr y bibell, y cyfeiriad y mae'n mynd iddo, y deunydd y mae wedi'i wneud ohono neu ei raddiant yn newid o dan yr ardal lle y bwriedir gwneud y gwaith adeiladu ac ni ellir ei symud na gosod pibell newydd yn ei lle. ✘ Os na allwch symud y pwynt mynediad, h.y. mae'r pwynt mynediad ar gyffordd rhwng carthffosydd neu lle mae'r bibell yn newid cyfeiriad ✘ Mae eich cynnig yn cynnwys strwythur mewnlenwi sy'n mynd o un ffin i'r llall lle mae strwythurau ar y ddwy ochr eisoes ✘ Pibellau dan bwysau fel pibellau fertigol a phrif bibellau dŵr.
<p>2. Nid wyf/Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw flociadau hanesyddol, llifogydd, arogleuon na materion gweithredol eraill mewn perthynas â'r garthffos/draen ochrol</p>	<p>Nid ydych yn ymwybodol o unrhyw flociadau hanesyddol, llifogydd, arogleuon na materion gweithredol eraill mewn perthynas â'r garthffos/draen ochrol</p>	<p>Roedd rheswm gennych dros gysylltu â Dŵr Cymru neu sefydliad draenio proffesiynol arall yn sgil problemau gyda'r carthffosydd neu'r draeniau ochrol yn eich eiddo o fewn y 12 mis diwethaf ac nid yw'r rhain wedi'u datrys</p>	
<p>3. A ydych yn ymwybodol o hawddfraint neu gyfamodau cyfyngu sy'n atal unrhyw waith adeiladu?</p>	<p>Nid ydych yn ymwybodol o hawddfrentiau na chyfamodau sy'n ymwneud â'r pibellwaith rydych yn bwriadu adeiladu drosto/yn agos ato</p>	<p>Rydych yn ymwybodol o hawddfraint/cyfamodau sy'n ymwneud â'r pibellwaith rydych yn bwriadu adeiladu drosto/yn agos ato</p>	
<p>4. Mae'r garthffos neu'r ddraen ochrol yn bibell llif disgyrchiant</p>	<p>Mae'r bibell yn llifo'n rhydd ac nid yw dan bwysau</p>	<p>Mae'r bibell yn brif bibell dan bwysau</p>	<p>Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os oes modd dargyfeirio'r garthffos a'ch bod yn barod i ymrwymo i Gytundeb Dargyfeirio Carthffos yn unol ag A.185 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar ein gwefan.</p>

...parhad


Bydd angen i chi sefydlu a chadarnhau:	Byddwn ni'n dweud ie am y rhesymau canlynol...	Byddwn ni'n dweud na am y rhesymau canlynol...	Cyngor pellach:
5. Dyfnder y bibell o lefel bresennol y ddaear i sianel y bibell (gwaelod mewnol)	3m neu lai	Mwy na 3m	Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os gellir dangos na fydd y gwaith datblygu yn gosod unrhyw lwyth ychwanegol ar y bibell.
6. Diamedr mewnol y bibell. Fel arfer, meintiau safonol yw'r rhain, sef 100, 150 neu 225mm neu 4, 6 neu 9 modfedd	Os yw diamedr mewnol y bibell yn 225mm (9 modfedd) neu lai.	Os yw diamedr mewnol y bibell yn fwy na 225mm (9 modfedd)	Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os caiff y garthffos ei dargyfeirio gan ddefnyddio'r broses Ddargyfeirio. Ceir rhagor o fanylion yn yr adran Gwasanaethau i Ddatblygwyr ar ein gwefan.
7. Y deunydd y mae'r bibell wedi'i wneud ohono	Clai, plastig	Ffeibr pyg, bric, sment asbestos	Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os caiff pibellwaith newydd ei osod cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau
8. Pwyntiau mynediad Mae hyn yn ymwneud â thyllau archwilio, siambrau archwilio a phwyntiau mynediad ar gyfer glanhau (rodding eyes)	Ni fydd eich odeilad wedi'i leoli dros y pwynt mynediad presennol a bydd y pwynt hwnnw o leiaf 500mm i ffwrdd oddi wrth yr adeilad newydd	Ni allwch fodloni'r gofyniad i sicrhau bwlch o 500mm o leiaf, neu bydd y pwynt mynediad presennol o dan yr adeilad newydd	Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os gellir symud y pwynt mynediad yr effeithir arno er mwyn sicrhau'r bwlch gofynnol, neu os gellir addasu siâp yr estyniad er mwyn bodloni'r gofyniad hwn. Gweler Manyllyn A isod
9. Y math o sylfaen rydych yn bwriadu ei defnyddio	Rydych yn ceisio hunanardystiad ac mae eich adeilad yn dibynnu ar sylfeini sribed neu llenwi ffos traddodiadol. Gweler Manyllyn C isod. Ar gyfer pob math arall o sylfaen, rhaid i chi gwblhau ein cais llawn	- Rydych yn cynnig defnyddio sylfaen rafft dros garthffos sy'n llai na 2m mewn dyfnder - Rydych yn cynnig defnyddio seilbyst sydd wedi'u lleoli o fewn 1m yn llorweddol o'r garthffos	Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl; efallai y bydd angen asesiad manwl o'r safle, y sylfaen a'i heffaith
10. Dyfnder eich sylfaen sribed/pad/llenwi ffos mewn perthynas â'r bibell	Bwriedir i'ch sylfeini fod o leiaf 150mm islaw'r bibell pan gânt eu lleoli o fewn 1m (yn llorweddol) i'r bibell neu, os ydynt wedi'u lleoli ymhellach i ffwrdd, mae'r garthffos gyhoeddus wedi'i lleoli uwchlaw'r parth dylanwad o 45°	Ni ellir cydymffurfio â dyfnder gofynnol y sylfaen	Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os cyflwynir cynigion amgen ar gyfer y sylfaen ac os cytunir ar y cynigion hynny. d.
11. Mae angen i chi symud y pwynt mynediad (siambr neu dwll archwilio) neu'r pibellwaith yn yr ardal lle rydych yn bwriadu gweithio, neu osod pwynt mynediad neu bibellwaith newydd.	Rydych yn rhoi manylion am eich cynnig, rydym yn ystyried eu bod yn dderbyniol ac rydych yn cytuno i gydymffurfio â'n polisi – (gweler ein hadran Cwestiynau Cyffredin).	Nid yw'r manylion a gyflwynir yn ein galluogi i asesu eich cynigion yn gywir neu nid ydych yn barod i gydymffurfio â'r polisi.	Sicrhewch eich bod yn cyflwyno manylion sy'n cadarnhau'r deunyddiau/y math o siambr mynediad rydych yn bwriadu ei gosod. Bydd angen i chi hefyd roi enw contractwr achrededig SSIP hefyd

...parhad

Bydd angen i chi sefydlu a chadarnhau:	Byddwn ni'n dweud ie am y rhesymau canlynol...	Byddwn ni'n dweud na am y rhesymau canlynol...	Cyngor pellach:
<p>12. Cyflwr y pibellau (oni bai eich bod yn bwriadu gosod pibellwaith newydd yn lle'r holl bibellwaith rydych yn adeiladu drosto)</p>	<p>Mae'r bibell mewn cyflwr da. Gellir sefydlu hyn drwy amlygu hyd y bibell y byddwch yn adeiladu drosti neu gwblhau arolwg teledu cylch cyfyng mewnol</p>	<p>Canfyddir bod y pibellwaith yn ddiffygiol ac ni chaiff ei atgyweirio</p>	<p>Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os caiff pibell newydd ei gosod. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni</p>
<p>13. Lleoliad y sylfaen Pellter rhwng y bibell a'r sylfeini</p>	<p>Mae cynllun y sylfeini yn diogelu'r bibell lle mae'n pasio heibio iddynt. Gweler Manyllyn D O ran y sylfeini sy'n cynnal y wal nad ydynt yn croesi'r garthffos, mae'n rhaid bod bwllch llorweddol o 500mm o leiaf rhwng ochr y sylfeini newydd a'r bibell</p>	<p>Nid yw eich cynllun yn cynnwys bwllch o 500mm rhwng y sylfeini a'r bibell.</p>	<p>Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl ar ôl cynnal asesiad manwl o'r sylfaen a'i heffaith ar y bibell.</p>
<p>14. Parhad y bibell o dan yr adeilad newydd</p>	<p>Nid yw'r bibell yn newid o ran diamedr, cyfeiriad, deunydd na graddiant o dan yr adeilad newydd arfaethedig</p>	<p>Mae'r diamedr, cyfeiriad, deunydd neu raddiant yn amlwg yn newid o dan (neu'n agos at) yr ardal lle y bwriedir gwneud y gwaith adeiladu</p>	<p>Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os caiff y pibellwaith ei ail-alinio neu os gosodir pibellwaith newydd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Noder, efallai y bydd angen cytuno ar hyn o dan gytundeb Dargyfeirio.</p>
<p>15. Hyd y bibell (carthffos) gyfan heb unrhyw fynediad allanol. Dim ond ar gyfer eiddo lle y bwriedir gwneud gwaith adeiladu dros garthffos o un ochr yr ardd i'r llall y mae hyn yn gymwys.</p>	<p>Nid ydych yn bwriadu adeiladu o un ochr eich gardd i'r llall. Neu rydych yn bwriadu adeiladu o un ochr eich gardd i'r llall ond mae mynediad allanol ar gael i'r garthffos drwy ardd eich cymdogion</p>	<p>Rydych yn bwriadu adeiladu o un ochr eich gardd i'r llall ac mae'r cymdogion ar y naill ochr a'r llall wedi gwneud yr un peth hefyd. Bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle nad oes unrhyw fynediad allanol i'r garthffos ar draws tri eiddo cyfagos neu fwy</p>	<p>Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os gellir gwneud trefniadau amgen addas i gael mynediad i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus drwy newid siâp eich adeilad. Gweler Manyllyn B isod</p>
<p>16. Diogelu'r bibell lle mae waliau/ sylfeini yn cael eu hadeiladu ac yn croesi drosodd.</p>	<p>Mae cynllun eich sylfeini yn cydymffurfio â'r Safonau a nodir yn Rhan H1 o'r Rheoliadau Adeiladu a gofynion Dŵr Cymru. Gweler Manyllyn E</p>	<p>Ni ellir bodloni'r gofynion sylfaenol o ran linteli</p>	
<p>17. Pellter rhwng llawr yr adeilad newydd a'r bibell</p>	<p>Mae eich cynllun yn cynnwys 300mm o fwllch rhwng ochr isaf slab y llawr newydd a'r bibell. Gweler Manyllyn D isod</p>	<p>Nid yw eich cynllun yn cynnwys bwllch o 300mm rhwng ochr isaf y llawr newydd a'r bibell.</p>	<p>Gall hyn gael ei ddatrys o bosibl os gellir dargyfeirio'r garthffos a'ch bod yn barod i ymrwymo i Gytundeb Dargyfeirio Carthffos yn unol ag A.185 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991</p>

Atodiad 2: Ein diagramau technegol

Manyl A



Allwedd:




Siambr archwilio bresennol ar y garthffos gyhoeddus




Siambr archwilio wedi'i symud ar y garthffos gyhoeddus

Manyl B

ANNERBYNIOL



DERBYNIOL



Allwedd:


- 1 Nid yw hyd y bibell y bwriedir adeiladu drosti yn dderbyniol gan nad yw'n gadael unrhyw le i gael mynediad.
- 2 Gellir datrys hyn drwy newid siâp yr adeilad a symud pwynt mynediad presennol.

Noder:


Nid yw'r diagramau ar y raddfa gywir

Manyl C

Sylfaen Stribed






Sylfaen Llenwi Ffos




Manyl D

Allwedd




-  Sylfeini adeiladu
-  Os yw'r garthffos yn yr ardal hon, gellir ystyried rhoi cydsyniad i adeiladu drosti
-  Os yw'r garthffos yn yr ardal hon, mae'n annhebygol y gellir ystyried rhoi cydsyniad i adeiladu drosti

Nodyn pwysig – os yw'r garthffos yn fwy na 3m i ochr yr estyniad (h.y. y tu allan i gwmpas y diagram hwn), ni fydd angen i chi gael cydsyniad i adeiladu drosti



Noder:
Nid yw'r diagramau ar y raddfa gywir

Manyl E Diogelu'r bibell lle mae
waliau/sylfeini yn cael eu hadeiladu
ac yn croesi drosodd



Noder:
Nid yw'r diagramau ar y raddfa gywir